Ar ôl Brexit: Polisi economaidd rhanbarthol yng Nghymru

Hydref 2017

SEFYDLIAD bevan FOUNDATION

Lluniwyd y cynigion ar y cyd â:

CLILC • WLGA

Cynnwys

1. Cyflwyniad a chrynodeb o'r argymhellion 2
2. Cyd-destun polisi rhanbarthol 4
Cronfeydd strwythurol yng Nghymru 4
3. Effaith ariannol Brexit 7
4. Dyfodol polisi rhanbarthol yng Nghymru: barn fforwm 9
Diben darpar bolisi rhanbarthol 9
Mesur angen 11
Rhesymeg ac amcanion 11
Mesur effaith 12
Ffit strategol 13
Cyflenwi polisi rhanbarthol yn y dyfodol 14
Trefniadau rhanbarthol 15
Symleiddio’r broses weinyddu a datblygu hinsawdd o drin pawb yn yr un modd 16
Cynorthwyo cydweithredu a rhannu arferion gorau 16
Monitro a Gwerthuso 17
5. Atodiad 1: polisi rhanbarthol yr UE 18

1. CYFLWYNIAD A CHRYNODEB O'R ARGYMHELLION

1.1. Mae Sefydliad Bevan yn ymgymryd â gwaith ar y modd gall Cymru ymateb i sialensiau a chyfleoedd yn deillio o Brexit. Fel rhan o'r prosiect 'Ar Ôl Brexit' mae'n cydweithio gyda nifer o sefydliadau partner i ganfod polisïau cyhoeddus newydd neu ddiwygiedig y mae angen i Gymru eu dilyn wrth baratoi ar gyfer Brexit. Cynhelir nifer o fforymau â thema, gan ddod â rhanddeiliaid at ei gilydd ynghyd ag arbenigwyr blaenllaw i feddwl am ddatrysiadau arloesol ac ystyried egin argymhellion ar gyfer camau gweithredu gan y bobl a gwleidyddion allweddol hynny sy'n gwneud y penderfyniadau i'w hystyried

1.2. Mae'r papur hwn yn gosod allan y 'llinellau coch' ar gyfer unrhyw bolisi rhanbarthol yn y dyfodol a fyddai'n galluogi Cymru i ffynnu – ac heb fod yn gwaethygu - ar ôl Brexit (sylwer: ceir crynodeb o raglen o'r cronfeydd strwythurol yn atodiad 1). Lluniwyd y cynigion ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac mae'r cynigion hynny wedi'u seilio'n rhannol ar drafodaethau mewn fforwm a gynhaliwyd gan ddau sefydliad 22 Mehefin 2017 oedd yn cynnwys academyddion, gwneuthurwyr polisi a sefydliadau sy'n cyflenwi gwasanaeth, ynghyd ag ymchwil pen desg.

1.3. Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg cryno o bolisi rhanbarthol yr UE ac ariannu yng Nghymru ar hyn o bryd, yn ogystal â sefyllfa'r polisi domestig a'r rhagolygon (yn ôl y trefniadau gwleidyddol cyfredol). Yna, mae'n ystyried effaith posibl Brexit ar ariannu ac yn rhoi braslun o'r opsiynau ar gyfer polisi rhanbarthol newydd i Gymru, gan gynnwys ei ddiben a'i gyflenwi.

Argymhelliad 1: Yn unol â'r addewidion a wnaed gan yr ymgyrch 'Gadael' yn ystod refferendwm y DU ar aelodaeth o'r UE, ni ddylai Cymru golli ceiniog ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae hyn yn golygu bod rhaid i Lywodraeth y DU ddarparu'r un lefel o adnoddau ar gyfer Cymru ag y byddai wedi'i dderbyn petai'r DU wedi aros yn yr UE o ran Ariannu Strwythurol ac ariannu o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Rhaid i'r ariannu hwn fod ar gael i Gymru yn ogystal â Fformiwla Barnett gan sicrhau bod y lefelau yn adlewyrchu anghenion parhaus ac amgylchiadau Cymru.

Argymhelliad 2: Er ein bod yn croesawu cynnig Llywodraeth y DU i sefydlu'r ariannu i gynorthwyo datblygiad rhanbarthol ar ôl i'r DU adael yr UE, dylai cyfran Cymru o'r Gronfa Ffyniant arfaethedig a Rennir, gael ei ddatganoli i Gymru gan fod polisi datblygiad economaidd yn fater datganoledig, gyda'r swm o arian sydd ar gael i Gymru heb fod yn llai na fyddai petai'r DU wedi aros yn yr UE.

Argymhelliad 3: Os bydd Llywodraeth y DU yn gwrthod datganoli cyfran Cymru o'i Gronfa Ffyniant arfaethedig a Rennir i Gymru ac yn rheoli'r gronfa yn uniongyrchol ar gyfer y DU, gyda phob ardal ledled y DU yn cystadlu am arian, dylai partneriaid allweddol, gan gynnwys Gweinyddiaethau Datganoledig a Chymdeithasau Llywodraeth Leol pob cenedl o'r DU, fod yn rhan o lunio'r Gronfa newydd. Ar ben hynny, bydd yn hanfodol cynorthwyo pob ardal o Gymru i gael mynediad i'r arian o'r Gronfa hon, gan weithio gyda'r pedair partneriaeth ranbarthol a restrir isod.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cyfeiriad polisi rhanbarthol Cymru ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau ei fod yn ymatebol i anghenion rhanbarthol a lleol. Mae hyn yn golygu y dylai gwneud penderfyniadau ac ariannu gael eu datganoli lawr i'r lefel fwyaf priodol yn unol ag egwyddor cyfrifolaeth, y dylai llywodraeth leol a phartneriaid allweddol eraill fod yn rhan weithredol o gyd-lunio polisi rhanbarthol newydd ar gyfer Cymru ac y dylai gael ei sefydlu ar waith y pedair Partneriaeth Ranbarthol sydd eisoes yn datblygu cynlluniau ar sail lle ar gyfer eu hardaloedd. Mae'r pedwar rhanbarth ar hyn o bryd yn gweithredu drwy'r trefniadau canlynol:

- Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Dinas-Ranbarth Bae Abertawe
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Bwrdd Tyfu Partneriaeth Canolbarth Cymru

Mae'r rhain i gyd yn symud tuag at drefniadau trefn lywodraethol ffurfiol ar y cyd i gyflenwi Bargeinion Dinas a Thwf a rhannu'n rhanbarthau ar gyfer datblygiad economaidd a chynllunio strategol yn unol ag agenda Diwygio Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 5: Dylai Awdurdodau Lleol, yn gweithio ar y cyd ar lefel ranbarthol gyda phartneriaid allweddol o'r sector cyhoeddus ehangach, y sector preifat a'r trydydd sector a sectorau Addysg Uwch a Phellach, gytuno ar eu cynlluniau datblygu rhanbarthol gyda Llywodraeth Cymru ag arian yn cael ei neilltuo i bob rhanbarth i weithredu a chyflenwi canlyniadau a rennir.

Argymhelliad 6: Mae Brexit yn gyfle i symud i ffwrdd o'r model o raglenni cenedlaethol (ar lefel y DU a Chymru) sy'n cymryd amser hir i'w datblygu ac angen prosesau bidio dwys eu hadnoddau. Yr hyn sy'n deillio o raglenni o'r math ydy prosiectau'n cael eu 'plygu' i ateb meini prawf cymhwyster unffurf sydd ddim yn adlewyrchu anghenion penodol nag amgylchiadau gwahanol rannau o Gymru. Byddai cael gwared ar y rhaglenni a'r holl weinyddu sydd ynghlwm wrthyn nhw yn sicrhau y byddai rhan fwyaf o'r arian yn cael ei wario ar ddarparu ymyriadau a all wneud gwir wahaniaeth i bobl, cymunedau a busnesau.

Argymhelliad 7: Dylai angen cymharol (at ddibenion dosrannu adnoddau) gael ei amcangyfrif ar lawer mwy na lefelau cymharol o allbwn economaidd gan fod hyn yn adlewyrchiad gwael o lefel angen y boblogaeth y rhanbarth gan gynnwys lefelau tlodi. Dylid mabwysiadu ystod ehangach o fesurau at ddibenion dosrannu adnoddau sy'n adlewyrchu lefelau tlodi, incwm a sgiliau ac anweithgarwch economaidd o fewn rhanbarthau.

Argymhelliad 8: Rhaid buddsoddi'r ariannu mewn arloesedd a thwf y mae ei effaith yn weladwy yn lleol tra'n cydnabod ar yr un pryd bod gan Gymru Economi Sylfaenol (Foundational Economy) gydag anghenion penodol sy'n cynnig cyfleoedd gwahanol i Gymru.

Argymhelliad 9: Rhaid i bolisi rhanbarthol yn y dyfodol fynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd a chymdeithasol o fewn rhanbarthau ac yn

rhyngranbarthol yng Nghymru drwy ddull 'twf cymhwysol' o fynd ati gyda dosbarthiad incwm yn fesur allweddol o lwyddiant.

2. CYD-DESTUN POLISI RHANBARTHOL

2.1. Mae polisi rhanbarthol wedi bod wedi bodoli ers talwm yn y DU fel modd o fynd i'r afael â gwahaniaethau economaidd ac wedi bod yn rhan o bolisi'r Undeb Ewropeaidd ers y cychwyn cyntaf.[1] Fodd bynnag, mae dulliau Cymru, y DU a'r UE o ddelio gyda datblygiad rhanbarthol wedi gwahaniaethu yn ystod y blynyddoedd diweddar o ran yr hyn y maen nhw'n ei flaenoriaethu a'r modd y maen nhw'n gweithio'n agos gyda lleoedd.

2.2. Gellir dadlau na fu ers blynyddoedd bolisi rhanbarthol economaidd penodol a chlir ar gyfer y DU na Chymru gyfan - yr agosaf a gawson ni i hyn oedd yr egin fargeinion dinas a thwf (city and growth deals). I raddau trosglwyddwyd y rôl hon i gronfeydd strwythurol yr UE – elfen allweddol o bolisi rhanbarthol yr UE – ond mae egwyddorion a'r symbyliad tu ôl i gronfeydd strwythurol ar adegau, yn anghydnaws â pholisi economaidd domestig.

2.3. A'r DU ar fin tynnu ei haelodaeth o'r UE yn ôl, ni fydd bellach yn cael mynediad i lawer o ddulliau cyllido'r UE na chwaith yn ddarostyngedig i reolau'r UE. Mae Brexit felly yn fygythiad ac yn gyfle i bolisi datblygu rhanbarthol yn y dyfodol yng Nghymru.

CRONFEYDD STRWYTHUROL YNG NGHYMRU

2.4. Mae Cymru'n derbyn symiau sylweddol o'r Gronfa Datblygu Rhanbarthau Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) sef yr hyn a elwir yn gronfeydd strwythurol. Ar gyfer ei hawl i arian o'r cronfeydd strwythurol caiff ei rhannu'n ddau ranbarth – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru. Rhwng 2007 a 2013 derbyniodd Cymru £1.8biliwn drwy raglen cronfeydd strwythurol thrwy hynny'n helpu 234,335 o bobl i ennill cymwysterau a 72,700 o bobl i gael gwaith tra'n creu 36,970 o swyddi a 11,925 o fentrau.[2]

2.5. Mae ystod cynhwysfawr o brosiectau uchel eu proffil ac ar raddfa fawr yn parhau i gael eu hariannu o gronfeydd strwythurol yng Nghymru, Rhai o'r prosiectau a ariennir drwy gronfeydd strwythurol ydy prif fecanwaith darparu ar gyfer Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn y meysydd polisi hyn, tra ar yr un pryd yn allweddol i adfywio cymunedau lleol. O roi pwysau ehangach ar gyllidebau, ni allai hyn barhau pe na byddai Cymru, ar ôl Brexit, yn derbyn swm cymharol â'r arian y mae'n ei derbyn yn gyfredol o'r cronfeydd strwythurol. Byddai hyn yn

[1] Crewyd Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn 1958 – yr un flwyddyn a wnaeth Cymuned Economaidd Ewrop gwrdd am y tro cyntaf.

[2] Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol; Ewrop Llywodraeth Cymru (2015), cyn 2013 [cyrchwyd via: http://gov.wales/funding/eu-funds/previous/?lang=en]

golygu goblygiadau mawr i ddarpar bolisi a rhaglenni, yn effeithio ar y rhai sy'n elwa yn ogystal â'r rhai a gyflogir i'w cyflenwi.

2.6. Mae Cymru hefyd yn derbyn arian sylweddol o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, o dan, ar y naill law, Piler 1, taliadau uniongyrchol i ffermwyr ac, ar y llaw arall, o dan Piler 2, cymorth ar gyfer datblygiad gwledig ehangach. Bu'r arian hwn yn hanfodol i gynnal cymunedau gwledig, adnoddau naturiol a diwylliant ac etifeddiaeth mwyafrif o Gymru.

Rhaglen Cronfa Strwythurol Ewropeaidd yn Nghymru ar gyfer 2014-2020



2.7. Mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn un o'r ddau ranbarth yn y DU a ystyrir yn un o ranbarthau 'llai datblygedig' yr UE oherwydd bod ei gynnyrch domestig gros fesul pen o'r boblogaeth yn llai na 75% o gyfartaledd yr UE, tra bod Dwyrain Cymru yn cael ei ystyried yn rhanbarth 'mwy datblygedig' gan fod ei gynnyrch domestig gros fesul pen o'r boblogaeth dros 90% o gyfartaled yr UE. Mae

goblygiadau sylweddol i hyn o ran faint o arian mae'n ei gael o ariannu strwythurol.[3]

2.8. Yn ystod y cyfnod rhwng 2014 a 2020, disgwylir i Gymru dderbyn €2,431miiwn mewn ariannu strwythurol, y mae dros bedair rhan o bump ohono ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.[4] Mae Tabl 1 yn dangos y blaenoriaethau ar gyfer y rownd hon o ariannu strwythurol.

Tabl 1: Blaenoriaethau ar gyfer rhaglenni Ariannu Strwythurol ar gyfer 2014-2020	
Blaenoriaethau Cronfa Datblygu Rhanbarthau Ewrop (ERDF):	***Blaenoriaethau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF):***
• Ymchwil ac arloesedd • Ysbryd cystadleuol BBaCh • Egni adnewyddadwy ac effeithiolrwydd ynni • Cysylltedd a datblygu trefol	• Trechu tlodi trwy gyflogaeth gynaliadwy • Sgiliau ar gyfer tyfu • Cyflogaeth a chyflawniad Ieuenctid
Ffynhonnell: Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (2015), Rhaglenni Cronfa Strwythurol Ewrop 2014-2020: Crynodeb o raglenni Cronfa Strwythurol yr ERDF a ESF yng Nghymru	

2.9. Mae Cymru'n derbyn lawer mwy o arian strwythurol fesul pen o'r boblogaeth na'r Alban, Gogledd Iwerddon na Lloegr (gweler Siart 1), ac mae hyn yn golygu y bydd yr ergyd yn drymach yng Nghymru nag yn yr ardaloedd hynny ar ôl i'r arian hyn gael ei dynnu'n nôl.



Ffynhonnell: SPERI (2016), SPERI British Political Economy Brief No. 24: UK regions a European structural and investment funds

[3] Comisiwn yr UE(2016), Regional Policy: Making Europe's regions and cities more competitive, fostering growth and creating jobs

[4] SPERI (2016), SPERI British Political Economy Brief No. 24: UK regions and European structural and investment funds

3. EFFAITH ARIANNOL BREXIT

3.1. Mae cyllid ar gyfer datblygu rhanbarthau ar ôl Brexit yn ansicr iawn. Mae Llywodraeth y DU wedi gwarantu cyllid ar gyfer prosiectau a arwyddwyd cyn i'r DU adael yr UE a derbyn bod cymhwyster. [5]

3.2. Ond dydy'r trefniadau ariannol ar ôl hynny ddim yn glir o bell ffordd. Mae Maniffesto'r Blaid Doriaidd ar gyfer Etholiad Cyffredinol y DU yn 2017 yn datgan y byddai'r blaid yn sefydlu 'Cronfa Ffyniant a Rennir' (Shared Prosperity Fund) unwaith y byddai'r DU yn tynnu nôl o'r UE:

> *"Current EU-wide structural funding was designed to tackle disparities but it is expensive to administer and poorly targeted. As we leave the European Union, we must look at how we can better reduce and eliminate these inequalities.*
>
> *"We will use the structural fund money that comes back to the UK following Brexit to create a United Kingdom Shared Prosperity Fund, specifically designed to reduce inequalities between communities across our four nations. … We will consult widely on the design of the fund, including with the devolved administrations, local authorities, businesses and public bodies. The UK Shared Prosperity Fund will be cheap to administer, low in bureaucracy and targeted where it is needed most".* [6]

3.3. Cyfeiriwyd ymhellach at y Gronfa Ffyniant a Rennir yng nghytundeb cymorth ariannol rhwng Llywodraeth y DU a'r DUP oedd yn datgan y byddai anghenion Gogledd Iwerddon yn cael eu hadlewyrchu'n briodol mewn cronfa a fydd er budd pob rhan o'r DU.[7]

3.4. Er bod y datganiadau yn dynodi y bydd y Gronfa Ffyniant a Rennir yn cael ei llunio gan Lywodraeth y DU, dydy hi dim yn glir beth fydd swyddogaeth y llywodraethau datganoledig tu hwnt i'r broses ymgynghori ac yn benodol, mae'n aneglur a fyddai'r cyfrifoldeb dros lunio a chyflenwi'r cyllid yn cael ei ddatganoli. Mae hefyd yn aneglur sut bydd y gronfa yn targedu adnoddau ar angen.

3.5. Mae'r trefniadau ar gyfer targedu Cymru ar gyfer cyllid yn arbennig o bwysig. Petai'r 'gronfa ffyniant a rennir' yn cael ei dyrannu yn ôl fformiwla Barnett yn unig, byddai Cymru yn sylweddol waeth ei byd nag ydyw o dan y trefniadau

---

[5] UK Government (2016), Datganiad i'r Wasg: "Further certainty on EU funding for hundreds of British projects" [cyrchwyd ar: https://www.gov.uk/government/news/further-certainty-on-eu-funding-for-hundreds-of-british-projects]

[6] Y Blaid Doriaidd/Conservative Party (2017), Forward Together: The Conservative Manifesto

[7] Llywodraeth y DU / UK Government (2017), UK Government Financial Support for Northern Ireland, [cyrchwyd ar: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/621797/UK_Govt__financial_support_for_Northern_Ireland.pdf]

cyfredol a hi fyddai'n dioddef yr effaith fwyaf andwyol yn y DU.[8] Er y byddai dyraniad cyllid strwythurol Cymru rhwng 2014 a 2020 yn €2.2 biliwn, dim ond €562 miliwn fyddai wedi'i dderbyn petai hyn wedi cael ei amcangyfrif drwy fformiwla Barnett.



3.6. Os ydy'r DU yn wir wedi ymrwymo i sicrhau na fydd unrhyw ran o'r DU yn colli allan o ganlyniad i Brexit, rhaid i'r mecanweithiau cyllido a ddefnyddir yng nghronfa ffyniant a rennir y DU adlewyrchu lefelau uchel o angen yng Nghymru a rhaid peidio â gadael unrhyw ran o'r DU yn waeth eu byd na chyn Brexit.

[8] Ty'r Arglwyddi - House of Lords European Union Committee (2017), Brexit: devolution

4. DYFODOL POLISI RHANBARTHOL YNG NGHYMRU: BARN FFORWM

4.1. Mae adran nesaf y papur hwn yn ystyried y blaenoriaethau ar gyfer darpar bolisi rhanbarthol yng Nghymru, yn tynnu ar farn a rannwyd mewn fforwm a gynhaliwyd gan CLILC a Sefydliad Bevan ar 22 Mehefin 2017 a'i ategu gan ymchwil pen desg.

4.2. Roedd y trafodaethau yn eang eu hystod a dydy hi ddim yn syndod na chafwyd consensws ar fater mor gymhleth. Fodd bynnag, mynegwyd rhai safbwyntiau oedd yn procio'r meddwl sydd wedi'u nodi isod ac yn ganolog i ddarpar drafod ar Ar Ôl Brexit: Polisi Rhanbarthol yng Nghymru.

DIBEN DARPAR BOLISI RHANBARTHOL

4.3. Seiliwyd Cronfeydd Strwythurol yr UE ar fodel datblygu sydd yn blaenoriaethu twf mewn Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) fesul pen o'r boblogaeth drwy fuddsoddi mewn isadeiledd, technoleg a throsglwyddo gwybodaeth a sgiliau uwch eu lefel. Er eu bod wedi llwyddo i raddau i gynyddu allbwn, creu swyddi a datblygu gweithlu mwy medrus, mae anghydraddoldebau'n dal i fodoli rhwng grwpiau o bobl o fewn gwahanol rannau o Gymru. Er enghraifft, mae Siart 3 yn dangos y cynnydd cyson fesul pen o'r boblogaeth mewn Gwerth Ychwanegol Gros yng Nghymru dros y ddau ddegawd diwethaf, ond does dim cydberthynas rhwng hyn â chyfraddau gweddol statig yn ystod yr un cyfnod. Mae Siart 4 yn dangos nad oedd fawr o berthynas rhwng y chwartel isaf a'r cyflog blynyddol canolrifol a GVA rhanbarthol ar draws awdurdodau lleol Cymru yn 2015.



Ffynonellau: StatsWales (2016), Gwerth Ychwanegol Gros fesul mesur, rhanbarth economaidd Cymru a blwyddyn; DWP (2017), Ystadegau Cenedlaethol: Aelwydydd Is na'r Incwm Cyfartalog: 1994/95 to 2015/16. Sylwer: ni chaiff tlodi ei ddiffinio fel aelwydydd gyda llai na 60% o incwm canolrifol cyfredol.



Ffynonellau: "ONS (2016), Place of Residence by Local Authority - ASHE: Table 8; ONS (2017), Regional GVA(I) by local authority in the UK". Noder: nid oedd data ar gael ar gyfer chwartel isaf cyflog blynyddol Penfro, Powys, Wrecsam na Gwynedd

4.4. Mae Maniffesto'r Blaid Doriaidd wedi cynnig y byddai Cronfa Ffyniant y DU a Rhennir wedi'i seilio ar strategaeth ddiwydiannol llywodraeth y DU. Roedd drafft y strategaeth ddiwydiannol yn cynnwys pwyslais cryf ar fuddsoddi mewn ymchwil, arloesedd, sgiliau ac isadeiledd. Er ei fod yn sôn am 'drive growth across the whole country' gan ddefnyddio'r liferi hyn, doedd e ddim yn cydnabod

bod llawer ohonyn nhw wedi'u datganoli. Nid oedd ychwaith yn trafod mater sicrhau byddai pawb yn cael budd o'r twf.[9]

4.5. Trafodwyd y dylai polisi rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit ffocysu ar a sianelu buddsoddiadau i mewn i gamau gweithredu er mwyn sicrhau bod yn mannau llai ffyniannus yn tyfu a datblygu a byddai'r bobl cefnog hefyd yn elwa o fuddion twf.

4.6. Soniodd cyfranogwyr yn ogystal am sut mae rhaid i unrhyw bolisi rhanbarthol yn y dyfodol hefyd ystyried y polisi ehangach a chyd-destun deddfwriaethol. Mae gan Gymru eisoes ystod o amcanion a blaenoriaethau a fynegwyd mewn deddfwriaeth megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 y mae rhaid eu hadlewyrchu mewn unrhyw bolisi rhanbarthol yn y dyfodol.

Mesur angen

4.7. Cafwyd peth anfodlonrwydd gyda'r ffaith mai GVA neu GDP rhanbarth fesul pen o'r boblogaeth oedd yr unig fesur o'u anghyfartaledd . Nododd nifer o gyfranogwyr nad oedd yn fesur da o angen cymharol poblogaethau'r rhanbarthau gan nad yw'n ystyried y cyfradd tlodi ac felly – o'i ddefnyddio ar ei ben ei hun - nid yw'n fesur da a oes angen cymorth ychwanegol ar ardal.

4.8. Yn y bôn, mae defnyddio GVA rhanbarthol i fesur angen yn ddefnyddiol i'r graddau y mae'n mesur amrywiaeth rhanbarthol yn yr hyn y mae GVA yn ei fesur (h.y. mesur arbennig o allbwn economaidd). Ond dylid mabwysiadu basgedaid o fesurau i ddyrannu adnoddau yn seiliedig ar fwy nag anghyfartaledd mewn allbwn economaidd oherwydd byddai hyn yn rhoi darlun gwell o 'angen' cymharol o fewn rhanbarth.

4.9. Yn benodol, os mai'r bwriad ydy ymglymu cymunedau yn yr hyn y mae polisi yn ceisio'i gyflawni, dydy defnyddio GVA fel prif fesur angen fawr o gymorth gan nad yw'n golygu dim i'r rhan fwyaf o bobl. Dylai'r ieithwedd a ddefnyddir i ddisgrifio angen (a llwyddiant) fod yn fwy perthnasol i brofiadau cyffredin pobl gan ei bod yn bwysig eu bod yn deall pam bod rhai ardaloedd yn derbyn cymorth ychwanegol a pha gynnydd sydd wedi deillio o hyn.

4.10. Dylid ystyried cyfraddau tlodi, lefelau cynhyrchiant, cyfraddau anweithgaredd economaidd a mesurau mwy penodol megis cyfartaledd y boblogaeth yn meddu ar sgiliau isel eu lefel, yn fesurau pwysig o angen cymharol ar gyfer dyrannu adnoddau yn y dyfodol.

Rhesymeg ac amcanion

4.11. Mae Brexit yn gyfle i lunio amcanion polisi sy'n adlewyrchu amgylchiadau economaidd Cymru yn well na'r hyn y mae'r cronfeydd strwythurol wedi'i ganiatáu. Nodwyd mewn trafodaethau y dylid cadw'n fras at amcan allweddol y cyllid cronfeydd strwythurol mewn datblygiad hyd yn hyn h.y. delio ag anghyfartaleddau rhanbarthol ond dylai hefyd fynd i'r afael ag anghyfartaledd o fewn rhanbarthau.

[9] UK Government (2017), Green Paper: Building our Industrial Strategy

4.12. Awgrymodd cyfranogwyr y gallai dull ‘dwy haen’ o fynd ati weithio’n well. Byddai hyn yn golygu sefydlu nifer o flaenoriaethau uchel eu lefel wedi’u hategu gan set o amcanion wedi’u targedu y gellid eu defnyddio i fesur perfformiad a hyn yn ei dro yn galluogi ffocws cynaliadwy ar ganlyniadau macro tra’n cyflawni’r amcanion micro yn gyson – o bosibl ddull ‘deep dive’ o fynd ati mewn meysydd polisi arbennig.

4.13. Cafwyd peth cytundeb y dylai polisi rhanbarthol ffocysu ar gyflawni twf cynhwysol. Dylai polisi rhanbarthol yn y dyfodol flaenoriaethu hybu ffyniant i bawb - dylai lefelau tlodi ostwng yn sylweddol o ganlyniad i dwf economaidd. Yn unol â hyn, galwyd am barhau i fuddsoddi mewn creu swyddi gyda ffocws penodol ar greu swyddi mewn ardaloedd llai cefnog o Gymru gan roi ystyriaeth yn ogystal i ansawdd y swyddi a greir.

4.14. Awgrymwyd y dylai’r dull hwn o fynd ati gael ei seilio ar asedau Cymru yn hytrach nag ar ei diffygion ariannol. Dylai mapio asedau felly, fod yn rhan o’r gwaith paratoi er mwyn asesu’r capasiti o fewn cymunedau a rhanbarthau.

4.15. Cefnogwyd y broses o barhau ac ehangu buddsoddiad mewn arloesedd (o ystyried y tymor hir), yn ogystal â hybu cynhyrchiant a’r elfen gystadleuol. Dylai prifysgolion a cholegau weithio gyda chwmnïau a'r llywodraeth i sicrhau bod ymchwil a sgiliau yn cael eu hymgorffori mewn busnesau rhanbarthol er mwyn manteisio i’r eithaf ar dwf ac arloesedd.

4.16. Awgrymwyd petai’r cyllid hwn yn dal i gael ei weinyddu mewn cylchoedd o saith mlynedd, byddai’n fodd i helpu Cymru addasu ar gyfer awtomatiaeth a newidiadau eraill i’r farchnad lafur oherwydd ei fod yn fod yn rhagweld cynllunio tymor hirach.

4.17. Byddai angen i gyllid a/neu fuddsoddiad a ddarparwyd ar gyfer cynorthwyo polisi rhanbarthol ffurfio rhan o’r strategaeth i wneud Cymru’n fwy allblyg – o ran dysgu drwy esiamplau o bolisi ‘arfer gorau’ mewn mannau eraill a datblygu cysylltiadau masnach rhyngwladol.

4.18. Fodd bynnag, nodwyd byddai rhaid i’r polisi rhanbarthol gydnabod bod gan Gymru ‘economi sylfaenol’– llawer ohono’n masnachu’n allanol neu’n tyfu’n gyflym (oherwydd galw cymharol anelastig). Mae’r economi sylfaenol yn bwysig ar gyfer pob rhan o Gymru o ran gwasanaethau a swyddi –mae tua 40% o weithlu Cymru’n gweithio mewn gweithgareddau sy’n gysylltiedig â’r sector sylfaenol.[10] Bydd angen harneisio’r cyfleoedd y mae hyn yn eu cynnig i gyflawni amcanion polisi rhanbarthol yn y dyfodol, gan gynnwys gostwng anghydraddoldeb.

Mesur effaith

4.19. Gan y gall GVA fesul pen o’r boblogaeth gynyddu tra bod tlodi hefyd yn cynyddu, byddai defnyddio GVA sy’n codi fel yr unig fesur neu’r mesur sylfaenol o lwyddiant yn amhriodol os mai twf cynhwysol ydy’r nod a ddymunir.

[10] CRESC for FSB Wales (2015), What Wales Could Be

4.20. Cafwyd tri awgrym am fodelau posibl i fesur effaith y gellid eu mabwysiadu gan Gymru (ac, o bosibl eu haddasu ar gyfer Cymru): Monitor Sefydliad Joseph Rowntree ar gyfer Twf Cynhwysol, system OECD (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd) o ddangosyddion tiriogaethol is-genedlaethol, a datblygu Mynegai o Lesiant Economaidd Cynaliadwy neu fodel Dangosydd Gwir Gynnydd. Mae'r tri awgrym yn ystyried 'costau' twf economaidd ar gyfer Cymru (i wahanol raddau) ac a ydy pawb yn cael yr un budd.

Tabl 2: Awgrym o'r mesurau effaith ar gyfer polisi rhanbarthol i Gymru yn y dyfodol	
Monitor Sefydliad JR gyfer Twf Cynhwysol	18 o ddangosyddion i nodi'r berthynas rhwng perfformiad economaidd a thlodi a ffurfiau cymharol o anfanteision. Mae'r dangosyddion yn delio ag incwm, costau byw a chynhwysiad y farchnad lafur, yn ogystal â thwf allgynnyrch a chyflogaeth a chyfalaf dynol.
Dangosyddion tiriogaethol is-genedlaethol OECD	52 o ddangosyddion a ddefnyddiwyd i ddarparu trosolwg cymharol o berfformiad rhanbarthau. Mae'n cynnwys ystadegau demograffig, ystadegau cymdeithasol a iechyd, dosraniad incwm rhanbarthau, cyfrifon rhanbarthau, ystadegau llafur, ystadegau amgylcheddol ac ystadegau arloesedd.
Dangosydd Gwir Gynnydd	26 o ddangosyddion, yn delio â pherfformiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Mae'n cynnwys mesurau os oes anghydraddoldeb incwm, allyriadau CO_2 gwaith di-dâl a gwirfoddoli.
Ffynonellau: JRF (2016), "An inclusive growth monitor for measuring the relationship between poverty and growth"; OECD (2017), Regional Policy in OECD Countries; Cobb, Clifford, Ted Halstead, & Jonathan Rowe (1995), The Genuine Progress Indicator: Summary of Data and Methodology	

4.21. Ni chafwyd consensws ar y modd o fesur ffyniant fodd bynnag. Nododd rhai cyfranogwyr bod y trefniadau cyfredol wedi gwyro'n rhy bell o werthfawrogi canlyniadau 'meddal', tra bod eraill yn meddwl bod rhai o'r mesurau effaith cydnabyddedig yn cynnwys dangosyddion nad oedd yn bwysig i Gymru.

4.22. Rhybuddiodd rhai na ddylid ffocysu gormod ar ganlyniadau gan y gallai hynny wyrdroi ymddygiadau'r rhai sy'n gyfrifol am gyflenwi'r polisi.

Ffit strategol

4.23. Dylai unrhyw bolisi rhanbarthol newydd gael lefel uchel o ffit strategol gyda strategaethau perthnasol sydd eisoes yn bodoli, megis strategaeth economaidd Llywodraeth Cymru, cynlluniau sgiliau rhanbarthol a strategaeth ddiwydiannol Llywodraeth y DU.[11] Byddai hyn yn help i fanteisio i'r eithaf ar y tebygoliaeth o gyflawni'r canlyniadau a'i gwneud hi'n haws i'r rhai sy'n llunio rhaglen gyflenwi.

[11] Fydd hyn ddim ond cyn gryfed a'r "ffit" rhwng yr asiantaethau sy'n bodoli, wrh gwrs. Tra bod cymhwysedd economaidd wedi ei ddatganoli, nid felly llawer o'r pwerau allweddol na'r liferi, sy'n creu her weleidyddol arwyddocaol.

4.24. Petai gan Gymru ychydig o ddylanwad ar ddarpar Gronfa Ffyniant y DU a Rennir, byddai'n werth ystyried y gallai'r ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli – yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 – ddarparu cyfiawnhad o dan y gyfraith dros ddilyn llawer o'r argymhellion yn y papur hwn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a pholisi rhanbarthol yn y dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â 'Chynlluniau Llesiant Lleol' a gytunir gan Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddu. Y diben ydy ymgorffori cynaliadwyedd hirdymor yng ngweithgareddau o ddydd i ddydd cyrff cyhoeddus, wedi'i dargedu tuag at saith nod llesiant:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru sy'n fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Lluniwyd hefyd i annog dulliau arbennig o weithio ar gyfer cyrff cyhoeddus gan gynnwys syniadau hirdymor, atal a chydweithio. Caiff llwyddiant ei fesur an ddefnyddio dangosyddion a bennwyd gan y cyrff cyhoeddus yn ogystal â'r 46 dangosydd cenedlaaethol.

Mae'r gofynion statudol yn bodoli a rhaid cydymffurfio â'r rhain hyd yn oed os oes gan Gymru bolisi rhanbarthol. Mae'n anodd dychmygu sut gallai unrhyw ddarpar bolisi rhanbarthol na darpar raglen gyllido gael nodau sy'n gwrthdaro â'r rhai hynny yn y Ddeddf, gan, y gellir dadlau, y byddai hynny yn torri ar swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel deddfwr.

4.25. Ond gallai cyfleoedd i wneud pethau'n wahanol fod yn gyfyng oherwydd bydd Cymru (a'r DU) yn dal i fod yn ddarostyngedig i reolau sy'n deillio o aelodaeth y DU o sefydliadau rhyngwladol eraill megis Sefydliad Masnach y Byd ac i fod yn gaeth i wahanol ddeliau masnach (nad oes gan Gymru fawr o lais yn y mater).

CYFLENWI POLISI RHANBARTHOL YN Y DYFODOL

4.26. Yn ogystal ag ystyried yr egwyddorion tu ôl i bolisi rhanbarthol Cymru yn y dyfodol, trafodwyd sut y dylai'r polisi gael ei gyflenwi. Roedd yn glir bod strwythurau rhanbarthol eisoes yn bodoli yng Nghymru a all gyflenwi darpar bolisi rhanbarthol ac mae rhai o'r farn nad oes unrhyw reswm dros newid pethau drwy gyflwyno strwythur rhanbarthol newydd.

4.27. Fodd bynnag, mae gwersi i'w dysgu er mwyn sicrhau bod unrhyw ddarpar bolisi rhanbarthol yn llwyddiannus. Byddai gofyn hefyd am drefniadau ategol angenrheidiol ac i ddirprwyo cyfrifoldebau yn glir er mwyn gweithredu'n effeithiol.

Trefniadau rhanbarthol

4.28. Cytunwyd bod gan Gymru strwythurau rhanbarthol eisoes i yrru datblygiad economaidd, felly, ni fyddai o unrhyw fudd i lunio ffiniau newydd. Y rhanbarthau ydy:

- Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Dinas-Ranbarth Bae Abertawe
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Bwrdd Tyfu Partneriaeth Canolbarth Cymru

4.29. Os oes potensial i ychwanegu gwerth, awgrymodd y cyfranogwyr mai buddsoddiad rhanbarthol parhaus a chyfuno adnoddau ddylai digwydd i wneud hynny. Fodd bynnag, rhaid i bopeth fod yn gyfuniad o'r elfennau unigol a phopeth wedi ffocysu ar gyflawni'r canlyniadau gorau posibl – byddai llwyddo i newid yr hinsawdd yn cymryd amser. Byddai gofyn i'r rhanbarthau gydnabod gyda ryw ffurf o awdurdod pendant – rhaid bod yn glir o'r cychwyn cyntaf ymhle mae'r cyfrifoldeb yn gorwedd.

4.30. Mae'r rhanbarthau eisoes wedi ffurfio cyrff gwneud penderfyniadau a pherthynas waith rhwng awdurdodau lleol. Maen nhw wedi nodi blaenoriaethau a rennir a gwaith ledled y rhanbarth i raddau amrywiol, yn ogystal â chysylltiadau rhanbarthol â Llywodraethau Cymru a'r DU. Maen nhw ar gamau gwahanol o ran datblygu'n gyrff cyflenwi, ac mae ganddyn nhw wahanol fathau o arweinyddiaeth (e.e. mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael ei arwain gan 'uwch gabinet' (super cabinet) o 10 arweinydd awdurdod lleol tra mae Bwrdd Economaidd Gogledd Cymru yn grŵp cydweithredol o sefydliadau'r sector preifat a chyhoeddus).

4.31. Roedd rhai o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried datganoli cyfrifoldeb dros rai penderfyniadau i strwythurau lleol neu ranbarthol yng Nghymru, er na chafwyd cytundeb ar i ba raddau y dylid mabwysiadu agenda datganoli rhanbarthol neu leol. Nodwyd er y gallai hyn ddigwydd ym maes deddfwriaeth a pholisi, gallai fod ymateb anffafriol a negyddol os na cheir newid cyfatebol yn yr hinsawdd.

4.32. Fodd bynnag, trafododd y cyfranogwyr fod angen i'r rhanbarthau ufuddhau i amodau fframwaith Cymru gyfan (hyd yn oed petaen nhw'n ychwanegol at fframwaith Y DU gyfan) neu gynllun strategol o ran datblygiad strategol, ond cafwyd peth anghytuno am faint o gyfarwyddyd y dylai'r fframwaith hwn ei roi a faint o reolaeth strategol ddylai gael ei gadw'n ganolog. Er enghraifft, roedd rhai yn meddwl y dylai meysydd polisi sy'n cael eu rheoli'n ganolog yn gyfredol (gan Lywodraeth Cymru) – megis polisi prentisiaethau – barhau i gael eu rheoli yn y dull hwn.

4.33. Roedd galw cryf am ddiffinio cyfrifoldeb yn glir o'r cychwyn cyntaf. Nododd un cyfranogwr nad yw hyn bob amser yn digwydd gyda'r trefniadau rhanbarthol

cyfredol ac felly dylid mynd i'r afael â hyn – yn enwedig os ydy'r amgylchiadau'n fwy anodd. Dylid archwilio'r cyfleoedd a'r risgiau o wneud datblygiad economaidd yn gyfrifoldeb statudol llywodraeth leol.

4.34. Roedd cyfranogwyr hefyd yn awyddus i weld rôl glir a diogel i fewnbwn cymunedol mewn polisi rhanbarthol yn y dyfodol. Rhaid osgoi datrysiadau a reolir yn gyfan gwbl o'r lefel uchaf (top-down), a rhaid datblygu mecanweithiau i alluogi cymunedau a rhanddeiliaid i gyfleu'r math o newidiadau y maen nhw'n dymuno'u gweld a'r pethau ddylai gael eu blaenoriaethu. Awgrymwyd y dylid bod yn ymwybodol o'r achosion lle mae gwariant wedi hybu'r canlyniadau dymunol yn ogystal â meithrin yr ymdeimlad hwn o berchnogaeth dros brosiectau, er mwyn osgoi teimlad o anfodlonrwydd – fel ag awgrymwyd oedd wedi digwydd gyda chyllid yr UE.

Symleiddio'r broses weinyddu a datblygu hinsawdd o drin pawb yn yr un modd

4.35. Mae llunio polisi rhanbarthol newydd yn gyfle i symleiddio proses weinyddu prosiectau a swmp y prosiectau (sydd, y gellir dadlau, yn deillio o wneud cais a'r broses weinyddu) yn ogystal â symud o raglenni cenedlaethol at fentrau rhanbarthol.

4.36. Nodwyd hefyd fod cyfyngiadau cyllid yr UE yn aml yn cael eu hystyried yn fympwyol gan ddefnyddwyr gwasanaethau, ac felly'n creu rhwystrau anesboniadwy. Er enghraifft, gwrthodwyd mynediad i rai raglenni cyflogadwyedd oedd yn cael eu hariannu'n rhannol gan gyllid strwythurol i'r bobl hynny oedd yn derbyn cymorth drwy raglenni'r DWP a doedd hyn ddim yn gwneud synnwyr i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

4.37. Fodd bynnag, tybiwyd ei bod yn ddymunol i gadw ychydig o ddisgyblaeth oedd yn gysylltiedig â gweinyddu'r cyllid strwythurol yn arbennig i atal y cyllid a ddychwelwyd i'r wlad rhag cael ei ymgorffori mewn cyllidebau eraill.

4.38. Bu'r cylchoedd saith mlynedd a neilltuwyd ar gyfer cyllid strwythurol yn fuddiol oherwydd ei fod wedi cael ei dynnu allan o'r cylchoedd gwleidyddol a chyllidebol a thrwy hynny ganiatáu mwy o gynllunio tymor hir. Dylid ystyried cadw'r nodwedd hon ar gyfer unrhyw ddarpar gyllid.

4.39. Roedd dyrnaid o gyfranogwyr yn credu nad oedd y dull o weinyddu'r cyllid wedi golygu ei fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau a fyddai'n gwella canlyniadau ardal. Yn hytrach, mae wedi annog pobl i rentu sydd ddim wedi cyfrannu dim i greu cyfoeth a gwella rhagolygon y rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Rhaid i unrhyw bolisi rhanbarthol newydd fynd i'r afael â'r ffenomen hon drwy ail-gynllunio a chael dealltwriaeth gadarn o ganlyniadau ac ymddygiadau gwrthnysig cysylltiedig â'r rhaglen cyllid strwythurol.

Cynorthwyo cydweithredu a rhannu arferion gorau

4.40. Mae un o nodweddion allweddol cyllido strwythurol – sef ei fod wedi gofyn am lefelau sylweddol o ariannu cyfatebol – wedi golygu fod cydweithredu yn gynhenid wrth wraidd y broses. Dylai unrhyw bolisi rhanbarthol yn y dyfodol

annog partneriaethau, yn enwedig gyda'r sector preifat a'r trydydd sector, gan gynnwys gweithio ar draws ffiniau (ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol).

4.41. Fodd bynnag, mae dull 'caffael yn niffyg gwrthwynebiad' wedi gweld partneriaid posibl yn cystadlu â'i gilydd, sy'n gwneud drwg i'r cyfle i gydweithredu'n briodol. Mae hefyd wedi gofyn am lawer o adnoddau ac wedi ffafrio sefydliadau mawr sydd â'r profiad a'r capasiti i gyflwyno cynigion llwyddiannus. Awgrymwyd cynnal arolwg o'r modd y mae caffaeliad yn arwain at y canlyniadau digroeso hyn, yn ogystal â symud i ffwrdd o'r dull 'caffael yn niffyg gwrthwynebiad' o fynd ati.

4.42. Awgrymwyd buddsoddi ymhellach mewn rhannu arferion gorau (a sicrhau y gall 'arfer gorau' deithio) er mwyn manteisio i'r eithaf ar unrhyw gyllid yn y dyfodol. Gallai hyn gael ei gydlynu ar lefel genedlaethol gyda sefydliad neu gorff a fydd yn benodol gyfrifol am ystyried enghreifftiau mewnol ac allanol o arferion gorau i yrru dulliau effeithiol o fynd ati i drin datblygiad economaidd.

4.43. Eto crybwyllwyd caffaeliad gan rai fel enghraifft o ble mae angen hyn. Disgrifiwyd hyn fel 'grym sy'n cael ei danddefnyddio' a allai gael ei ddefnyddio i gyflawni newid cymdeithasol ac economaidd. Cafwyd enghreifftiau da y gall Cymru a mannau eraill ddysgu oddi wrthyn nhw megis y modd y mae ardal Gwlad y Basg wedi defnyddio caffaeliad i hybu isadeiledd gwyrdd.

Rhaglen Caffael Cyhoeddus Werdd Gwlad y Basg 2020

Mae Gweinyddiaeth Gwlad y Basg wedi bod yn arwain y ffordd yn y defnydd o gaffael cyhoeddus i gyflawni ei nodau amgylcheddol. Mae'n bwriadu, erbyn 2020, y bydd llywodraeth y rhanbarth, y cynghorau taleithiol a'i awdurdod lleol wedi cyflawni 'sefydliadu caffael cyfrifol amgylcheddol'. Gwneir hyn drwy gaffael 50% o gynhyrchion a gwasanaethau mewn 20 ardal, gan gynnwys adeiladu, datblygiad trefol a chludiant cyhoeddus. Caiff y strategaeth hon ei rheoli gan grŵp gyrru sydd â'r dasg o arwain a chydlynu'r rhaglen, swyddfa dechnegol a chyfranogiad gwirfoddol yr holl weinyddiaeth berthnasol

Ffynhonnell: Llyfrgell Genedlaethol Llywodraeth Gwlad y Basg (2016), Rhaglen Caffael Cyhoeddus Werdd Gwlad y Basg 2020

Monitro a Gwerthuso

4.44. Mae angen i ddarpar bolisi o'r cychwyn cyntaf gynnwys prosesau ar gyfer monitro a gwerthuso. Cafodd trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso cyllid strwythurol eu beirniadu am eu tuedd i gytuno ac am y ffaith nad yw pobl yn eu hystyried o ddifrif.

4.45. Rhaid dadansoddi'r monitro a'r gwerthuso yn gynnar yn y broses fel y gellir delio ag unrhyw wendidau. Gallai hyn olygu rôl ragweithiol i'r rhai sy'n gyfrifol am fonitro, gyda'r posibilrwydd o allu gychwyn rheoli'r prosiectau sydd yn methu â chyflawni'r canlyniadau dymunol yn gyson.

4.46. Dylid trin monitro a gwerthuso fel adnodd dysgu gwerthfawr – nid yn unig fel modd o fesur cydymffurfiad.

5. ATODIAD 1: POLISI RHANBARTHOL YR UE

5.1. Mae polisi rhanbarthol yr UE yn ffocysu ar fuddsoddi mewn rhanbarthau er mwyn annog twf economaidd a gwella bywydau pobl. Mae wedi ffocysu'n benodol ar ranbarthau llai datblygedig a/neu ranbarthau mwy difreintiedig yr UE yn ôl meini prawf (yn dibynnu ar y gronfa) gan gynnwys GDP fesul pen o'r boblogaeth, cyfraddau diweithdra a lleoliad daearyddol (gweler Tabl 1).

5.2. Nid disodli gwariant cenedlaethol ar ddatblygu gwledig ydy diben y cyllid. Rhaid i'r llywodraeth a/neu drydydd parti roi arian cyfatebol i'r cyllid strwythurol.

Tabl 1: Cyllid Rhanbarthol yr UE, rownd cyllido 2014-2020

		Cyllid	**Diben**
Cyllid Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd [ESIF]	Cyllid Strwythurol	Cronfa Datblygu Rhanbarthau Ewrop (ERDF)	Yn buddsoddi mewn sectorau twf i ddatblygu swyddi a'r elfen gystadleuol ac yn mynd i'r afael â sialensiau economaidd, amgylcheddol, a heriau cymdeithasol. Mae'n ffocysu'n benodol ar ddatblygiad trefol cynaliadwy, yn ogystal â rhoi cyllid i ardaloedd sydd yn naturiol dan anfanteision oherwydd eu lleoliad, megis ardaloedd allanol yr UE, a chydweithrediad tiriogaethol. Meysydd buddsoddi uchaf eu blaenoriaeth: • Ymchwil ac arloesedd • Agenda digidol • Cynorthwyo BBaCh • Economi carbon isel
		Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)	Gwella cyflogadwyedd drwy gynorthwyo ceiswyr swyddi a gweithwyr i gael hyd i hyfforddiant, trechu gwahaniaethu drwy helpu cymunedau ymyleiddiol a gwella effeithiolrwydd gweinyddiaethau a gwasanaethau cyhoeddus. Meysydd buddsoddi uchaf eu blaenoriaeth: • Hybu a chynorthwyo cyflogaeth a symudedd llafur • Cynhwysiad cymdeithasol a thaclo tlodi • Addysg, sgiliau a dysgu gydol oes • Gwella capasiti sefydliadau a gwneud gweinyddiaeth gyhoeddus yn fwy effeithlon
		Cronfa Cydlyniant	Yn buddsoddi mewn rhwydweithiau cludiant a phrosiectau amgylcheddol, gan hyrwyddo twf economaidd 'gwyrdd' a lleihau anghydraddoldebau economaidd a chymdeithasol. Wedi'i dargedu at wledydd â

			GDP is na 90% o gyfartaledd yr UE. Mae wedi darparu buddsoddiad ar gyfer addasiadau fyddai'n dilyn newid yn yr hinsawdd, rhwydwaith cludiant Traws-ewropeaidd a Chyfleuster Cysylltu Ewrop, sy'n buddsoddi mewn isadeiledd band llydan ymhlith pethau eraill.
		Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD)	Yn ceisio gwneud y sectorau amaethyddol yn fwy cydnerth, yn fwy arloesol a mwy cyfeillgar i'r hinsawdd.
		Cronfa Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF)	I wneud pysgodfeydd ac acwafeithrin yn fwy cynaliadwy a chystadleuol
		Cronfa Gydsefyll yr UE (EUSF)	Cronfa ymateb cyflym i gynorthwyo rhanbarthau sy'n dioddef o drychinebau (naturiol)

5.3. Mae cyllideb polisi rhanbarthol yn rhedeg mewn cylchoedd o saith mlynedd ac mae'n cael ei osod (ynghyd â'r rheolau) gan Senedd Ewrop a Chyngor Gweinidogion yr UE (ar sail cynnig gan y Comisiwn). Yna caiff cytundebau partneriaeth a chynlluniau buddsoddi eu datblygu gan Gomisiwn yr UE a gwledydd yr UE (ar gyfer mentrau ledled y wlad a mentrau rhanbarthol) a'u cyflenwi gan y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae'r Comisiwn yn rhyddhau cyllid ddechrau'r flwyddyn ond gwneir taliadau unigol uniongyrchol gan yr asiantaeth dalu genedlaethol/ranbarthol. Yn achos Cymru, Llywodraeth Cymru sy'n gwneud hyn drwy ei hasiantaeth weithredol, Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru.

Ffig 1: Sut caiff blaenoriaethau a dyraniad Cyllid Strwythurol eu pennu



5.4. Mae polisi rhanbarthol ar hyn o bryd yn ffocysu ar nifer o flaenoriaethau buddsoddi allweddol (gweler tabl 1), gyda'r pump ESIF yn cael eu rheoli gan set o reolau cyffredin, Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin ar gyfer Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (Rheoliad (UE) 1303/2013), yn ogystal â rheoliadau ychwanegol penodol i gyllid.[12]

5.5. Defnyddir GDP (Cynnyrch Domestig Gros fesul pen o'r boblogaeth) i amcangyfrif dyraniad cyllid strwythurol. Rhennir rhanbarthau'r UE yn dri : rhanbarthau 'llai datblygedig' sydd â GDP fesul pen o'r boblogaeth < 75% o gyfartaledd yr UE, 'rhanbarthau trawsnewid' sydd â GDP fesul pen o'r boblogaeth rhwng 75% a 90% o gyfartaledd yr UE a 'rhanbarthau mwy datblygedig' sydd â GDP fesul pen o'r boblogaeth o >90% o gyfartaledd yr UE.

5.6. Mae dyrannu ESIFs yn un o'r nifer o ddulliau sy'n rhan o gyflenwi cynllun Ewrop 2020 – sef strategaeth twf 10 mlynedd yr UE. Bwriad y strategaeth ydy creu Ewrop sydd "wedi ei baratoi'n well i ddarparu twf smart, cynaliadwy a chynhwysol; Ewrop sy'n cyfuno creu swyddi a chynhwysiant cymdeithasol, lle gall pobl gael y sgiliau maen nhw eu hangen i flodeuo; Ewrop fydd yn gallu manteisio drwy gyfleoedd byd-eang." Mae'n cynnwys pum targed allweddol a saith menter flaenllaw, gyda'r cynnydd yn cael ei fonitro gan y Comisiwn a'r Cyngor Ewropeaidd.

Tabl 2: Targedau strategaeth Ewrop 2020
1. **Cyflogaeth:** 75% o bobl rhwng 20 a 64 oed i fod mewn cyflogaeth
2. **R&D:** 3% o GDP yr UE i'w fuddsoddi yn R&D
3. **Newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd ynni:** allyriadau nwyon tŷ gwydr 20% (neu hyd yn oed 30%, os yw'r amodau'n addas) yn is na 1990; 20% o'r ynni o ynni adnewyddadwy; 20% o gynnydd mewn effeithiolrwydd ynni
4. **Addysg:** Gostwng cyfraddau myfyrwyr yn gadael ysgol yn gynnar yn is na 10%; o leiaf 40% o bobl 30-34 oed yn cwblhau addysg drydedd lefel
5. **Trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol:** o leiaf 20 miliwn o bobl yn llai mewn neu mewn perygl o dlodi ac allgáu cymdeithasol
Ffynhonnell: Comisiwn Ewropeaidd, strategaeth Ewrop 2020 [cyrchwyd drwy https://ec.europa.eu/info/strategy/european-semester/framework/europe-2020-strategy_en]

5.7. O dderbyn faint o grynodiad poblogaeth yr UE sydd mewn ardaloedd trefol (dros ddwy ran o dair o ddinasyddion yr UE yn byw mewn dinasoedd ac mae'r canran hwn yn tyfu), gwelwyd tuedd i gyfeirio cyllid tuag at ddinasoedd. Er enghraifft bydd dros hanner dyraniadau'r ERDF rhwng 2014 a 2020 yn cael ei fuddsoddi mewn ardaloedd trefol.

[12] Y Comisiwn Ewropeaidd (2015), Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020: Testunau a Sylwebaethau Swyddogol

Gwybodaeth am Sefydliad Bevan

Mae Sefydliad Bevan yn datblygu syniadau i wneud Cymru yn lle tecach, mwy ffyniannus a mwy cynaliadwy. Rydyn ni'n sefydliad annibynnol o'r llywodraeth nac unrhyw blaid wleidyddol ac yn cael ein hariannu gan danysgrifiadau, rhoddion, grantiau o ymddiriedolaethau elusennol a sefydliadau a chomisiynau.

Rydyn ni wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr adroddiad hwn yn gywir ond mae'r cyfrifoldeb am unrhyw gamgymeriadau a barn yn yr adroddiad hwn ar ysgwyddau Sefydliad Bevan.

Syniadau i Newid Cymru

SEFYDLIAD bevan FOUNDATION

Bevan Foundation
145a High Street
Merthyr Tydfil CF47 8DP

Twitter @bevanfoundation
Facebook.com/bevanfoundation
LinkedIn Bevan Foundation

Tel: +44 (0)1685 350 938
info@bevanfoundation.org
www.bevanfoundation.org

The Bevan Foundation is a registered charity no. 1104191 and company limited by guarantee no. 4175018.